# SL(5)473 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel er mwyn iddynt dalu'r dreth gyngor.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013. Maent yn uwchraddio rhai ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeisydd i ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a lefel y gostyngiad sy'n dilyn. Maent hefyd yn gwneud rhai diwygiadau technegol a chanlyniadol.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i Reoliadau Partneriaeth Sifil (Cyplau o Wahanol Ryw) 2019 a chyfres o reoliadau a fydd yn gweithredu darpariaeth yn Neddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at "erthygl 3… o Orchymyn Mewnfudo (Gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) (Ymadael â'r UE) 2019 a wnaed o dan adran 3A o *[Ddeddf Mewnfudo 1971]*" (Pwyslais wedi'i ychwanegu).

Gofynnwn pam bod angen cyfeirio at y ffaith bod Gorchymyn 2019 wedi'i wneud o dan adran 3A o Ddeddf Mewnfudo 1971, a beth fyddai wedi bod yn wahanol pe bai'r Rheoliadau wedi cyfeirio yn syml at erthygl 3 o Orchymyn 2019 (heb nodi'r pŵer a ddefnyddiwyd i wneud Gorchymyn 2019).

Mae'r un pwynt yn codi mewn perthynas â'r rheolau mewnfudo *a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971*.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ar 30 Mawrth 2019, roedd sail aros newydd wedi'i greu ar gyfer gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a'r Swistir o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (**EUSS**). Yr EUSS

yw'r cyfrwng y gall gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd, sy'n preswylio yn y DU erbyn y dyddiad penodedig, ei ddefnyddio i wneud cais am statws mewnfudo yn y DU a fydd yn gwarchod eu hawliau a'u hawl i aros yn y DU. Y dyddiad penodedig a bennwyd os yw'r DU yn taro cytundeb â'r UE yw 31 Rhagfyr 2020, a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i'r EUSS yw 30 Mehefin 2021. Os yw'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, bydd angen i wladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fod yn byw yn y DU cyn i'r DU adael yr UE er mwyn gwneud cais, a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yn yr achos hwnnw fydd 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r ddarpariaeth yng Nghynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ynglŷn â phobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr wedi'i diweddaru, a hynny er mwyn egluro nad yw caniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i neu i aros sy'n cael ei roi o dan yr EUSS yn hawl berthnasol i breswylio at ddibenion bod yn breswylydd arferol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu nad yw nifer o hawliau i breswylio a sefydlwyd ar gyfer gwladolion o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE yn hawliau perthnasol i breswylio at ddibenion sefydlu statws preswylydd arferol.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 28 o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (Personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr). Mae'r diwygiad yn mewnosod nifer o hawliau newydd i breswylio a bennwyd ar gyfer gwladolion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mewn cysylltiad ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE. Gwneir yr un ddarpariaeth yn union yn rheoliad 15 sy'n diwygio paragraff 19 yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

Mae cynsail i'r dull drafftio a ddefnyddiwyd wrth gyfeirio at yr adran berthnasol yn Neddf Mewnfudo 1971. Gweler, er enghraifft, rheoliad 28(5)(e) o Reoliadau Gofynion Rhagnodedig 2013 a pharagraff 19(5)(e) o Reoliadau Cynllun Diofyn 2013. Mae hefyd yn gyson â darpariaeth ar gyfer Ymadael â'r UE a wneir mewn Rheoliadau eraill diweddar a wnaed gan Weinidogion Cymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Gweler, er enghraifft, rheoliad 2(3) o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2019 a rheoliad 2(3) o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019. Mae'r ddwy set o Reoliadau yn cyfeirio at Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3 o Ddeddf 1971.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**29 Tachwedd 2019**